



## CYNGOR ARBENNIG

### COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH, 27 GORFFENAF 2021 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Andrews - Maer  
Y Cynghorydd J. Gale - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

M. Adams, E.M. Aldworth, A. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, N. Dix, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, A. Gair, N. George, C. Gordon, L. Harding, D. Havard, A. Hussey, M. James, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, B. Jones, S. Kent, G. Kirby, A. Leonard, P. Leonard, C. Mann, P. Marsden, B. Miles, B. Owen, T. Parry, L. Phipps, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J. Roberts, R. Saralis, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L. Whittle, T.J. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd â:-

C. Harry (Prif Weithredwr), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro),  
R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), S. Pugh (Rheolwr Cyfathrebu),  
E. Sullivan (Uwch-swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

#### DARLLEDU AR Y WE, FFILMIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Gwnaeth y Prif Weithredwr atgoffa'r rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw. Serch hynny, byddai recordiad ar gael ar ôl y cyfarfod ar wefan y Cyngor – [Cliciwch Yma i'w Weld](#). Esboniodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

#### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Bevan, C. Bishop, D. Cushing, K. Dawson, C. Elsbury, C. Forehead, E. Forehead, J.E. Fussell, R. Gough, D. Hardacre, D. Harse, A. Higgs, S. Morgan, G. Oliver, Mrs D. Price, M.E. Sargent ac W. Williams.

#### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd D.T. Davies fuddiant personol yn unig yn Eitem Rhif 3 ar yr Agenda – Ffurio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, am mai ef yw'r cynrychiolydd ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a benodwyd gan y Fwrdeistref Sirol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. Fel y cyfryw, nid oedd angen iddo adael y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei hystyried.

## **DATGANIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR**

Gyda chaniatâd y Maer, anerchodd yr Arweinydd y Cyngor a llongyfarch dwy athletwraig leol am eu cyflawniadau diweddar yng Ngemau Olympaidd Tokyo 2020. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Lauren Williams o'r Coed-duon wedi ennill medal arian yn y rownd derfynol taekwondo ddydd Llun, gwobr addas iawn am ei gwaith caled a'i hymroddiad dros flynyddoedd lawer. Hefyd, dymunodd yr Arweinydd yn dda i Lauren Price a fyddai'n cystadlu yn y Gemau Olympaidd am y tro cyntaf ddydd Mercher mewn cystadleuaeth paffio ar gyfer pwysau canol.

Roedd yr Aelodau yn falch o glywed am lwyddiannau'r athletwyr ysbrydoledig hyn a gwnaethant longyfarch y ddwy ar eu cyflawniadau.

Roedd yr Arweinydd hefyd yn falch o gyhoeddi bod y Cyngor wedi cyrraedd y rhestr fer mewn dau gategori yng ngwobrau mawreddog y Local Government Chronicle 2021. Mae Cyngor Caerffili wedi cyrraedd y rhestr fer yn y prif gategori, sef Cyngor y Flwyddyn, sy'n gyflawniad anhygoel gan mai Caerffili yw'r unig awdurdod lleol o Gymru i gyrraedd y rhestr fer a dim ond pum awdurdod a ddewisir o bob rhan o'r DU. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyrraedd y rhestr fer mewn categori ar wahân am ei waith partneriaeth clodwiw gyda chwmni Castell Howell, sydd wedi bod yn rhan hanfodol o'r fenter i ddarparu prydau ysgol am ddim dros y 12 mis diwethaf.

Caiff yr enillwyr eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2021 ond, yn y cyfamser, gwnaeth yr Arweinydd longyfarch pawb sydd wedi gweithio mor galed i gael yr anrhydeddau hyn a chyfrannu at y rhestr gynyddol o gyflawniadau sydd gan y Cyngor.

## **3. FFURFIO BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWENT**

Ystyriwyd yr adroddiad rhanbarthol a oedd yn amlinellu trefniadau i ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer Gwent o hydref 2021. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu cyflwyno i sawl fforwm Aelodau yn y pum awdurdod lleol. Adlewyrchwyd barn y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar ffurfio BGC Gwent yn yr adroddiad, a oedd hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y cynigion ar gyfer creu Grwpiau Cyflawni Lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol sy'n aelodau, ynghyd â gwybodaeth am y trefniadau craffu rhanbarthol arfaethedig a'r trefniadau craffu a fyddai'n parhau yn y Cyngor cyn ac ar ôl 2023.

Atgoffwyd y Cyngor o'r Seminar i'r Holl Aelodau a gynhaliwyd ddydd Llun 19 Gorffennaf a roddodd gyfle ymgysylltu i esbonio'r sbardunau strategol y tu ôl i greu BGC ar gyfer Gwent a'r ffaith y byddai trefniadau cyflawni lleol yn parhau, ynghyd ag amlinellu'r gweithgarwch ymgysylltu a gynlluniwyd ar gyfer llesiant a fyddai'n mynd rhagddo ar draws y fwrdeistref sirol dros yr haf.

Rhoddwyd trosolwg i'r Cyngor o'r sbardunau strategol a'r sail resymegol dros ffurfio BGC Gwent. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd gwell ac wedi'u hatgyfnerthu, gwaith partneriaeth strwythuredig a throsolwg strategol, a bydd yn cyfrannu at y gwaith sy'n cael ei wneud ar lawer o faterion pwysig sydd eisoes yn cael eu cyflawni ar lefel

partneriaeth ranbarthol (megis ymdrin â thrais yn erbyn menywod, a chamddefnyddio sylweddau).

Esboniwyd y bydd yr asesiad o lesiant a'r cynllun llesiant ranbarthol sydd ar ddod yn gwneud y defnydd gorau o gapasiti ar draws y rhanbarth gan gynnal atebolrwydd lleol, prosesau cynllunio ac asesu lleol, a'r dulliau o gyflwyno gweithgarwch lleol, ond ceir budd o gysondeb a chyfeiriad strategol cryfach. Mae pwyllgor craffu ranbarthol yn cael ei ddatblygu a fydd yn craffu ar waith BGC Gwent a'r gwaith o ddatblygu'r cynllun llesiant newydd, sy'n ofyniad o dan ddeddfwriaeth, ond gall gynnig cyfle i graffu gweithgarwch arall gan bartneriaethau ranbarthol yn y dyfodol. Mae swyddogion gwasanaethau pwyllgor o bob rhan o'r rhanbarth yn gweithio ar y dasg hon a bydd y pwyllgor craffu newydd yn cynnwys aelodau o'r awdurdodau sy'n aelodau. Mae Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru wedi argymhell yn gryf y dylid uno BGCau er mwyn alinio cyfrifoldebau ac integreiddio gwaith cyflawni â byrddau partneriaeth eraill.

Caiff cyfarfod cyntaf BGC Gwent ei gynnal ar 1 Hydref 2021 a bydd Cyngor Caerffili yn cefnogi ac yn hwyluso trefniadau'r Bwrdd am y ddwy flynedd gyntaf. Ar ôl hynny, bydd y pum awdurdod lleol yn cymryd eu tro i wneud hyn. Caiff BGC Gwent ei gefnogi gan 5 grŵp cyflawni lleol ym mhob awdurdod lleol a fydd yn cynnwys staff o'r aelod-sefydliadau, yn bwysig, gyda statws digonol i wneud penderfyniadau a chyfeirio adnoddau. Bydd gwaith cynllunio cymunedol yn parhau ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel ardal gymunedol yn y fwrdeistref sirol, bydd prosesau lleol i graffu ar y cynllun llesiant presennol yn parhau tan 2023, pan ddaw Cynllun Llesiant Gwent i rym. Ar ôl hynny, bydd yr awdurdod lleol yn parhau i graffu ar brosiectau lleol ar lefel lleol; bydd gan Grŵp Cyflawni Lleol Caerffili ddau gyfrifoldeb, sef cyflwyno prosiectau lleol a chyfrannu at unrhyw brosiectau ranbarthol yng Nghynllun Llesiant Gwent.

Penderfynodd BGC Caerffili uno yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2021 a chafwyd sylwadau gan Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a'r Pwyllgor Cyswllt Cynghorau Cymuned a gafodd eu hystyried a'u trafod ar y pryd. Craffodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar yr adroddiad sydd gerbron y Cyngor ar 15 Gorffennaf 2021 ac mae'n ymwneud â'r goblygiadau ar gyfer trefniadau cyflawni lleol a ranbarthol, cyfansoddiad y Cynllun Llesiant presennol a'r trefniadau ar gyfer creu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd Gwent. Bwriedir iddo roi gwybodaeth i'r Aelodau am y trefniadau cyflawni ac yn enwedig y trefniadau lleol hynny sydd wedi'u cwblhau.

Cyflwynwyd adroddiad gerbron Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar 17 Mehefin 2021 ac adroddiad pellach yn y Pwyllgor Cyswllt Cynghorau Cymuned ar 21 Gorffennaf 2021 er mwyn trafod y trefniadau cyflawni arfaethedig. Canolbwyntiodd y drafodaeth ym Mhwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar sicrhau y byddai'r trydydd sector yn parhau i gael ei gynnwys yn y trefniadau cyflawni newydd, a rhoddwyd y sicrwydd hwn gan Swyddogion yn y cyfarfod. Roedd y drafodaeth yn y Pwyllgor Cyswllt Cynghorau Cymuned yn cynnwys cwestiynau am farn cynghorau tref a chynghorau cymuned eraill ar draws y rhanbarth, a nodwyd na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau ond bod ardaloedd eraill wedi gofyn bod cynrychiolydd yn eistedd ar y grŵp cyflawni lleol, fel sydd eisoes yn digwydd yn ardal Caerffili. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod dau BGC sydd wedi'u huno eisoes yn bodoli yng Nghymru (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, a Chonwy a Sir Ddinbych), a BGC Gwent fydd y trydydd un i gael ei uno. Cadarnhawyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gorfodi'r uniad, ond ei bod wedi'i awgrymu er mwyn gwneud y dirwedd gymhleth yn gliriach.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r Cyngor nodi'r adroddiad cwmpasu a oedd yn cynnwys barn y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, ynghyd â'r gyfres lawn o argymhellion yn yr adroddiad atodedig ar gyfer cyflwyno BGC Gwent, a chyfleu unrhyw safbwyntiau ynghylch yr argymhellion, gan nodi bod y partneriaid sy'n aelodau o bob rhan o'r rhanbarth wedi gwneud y penderfyniad i ffurfio BGC Gwent ar y cyd.

Trafododd y Cyngor yr adroddiad yn fanwl a gofynnodd un Aelod beth oedd yr ysgogiad i Gaerffili gymryd rhan yn BGC Gwent. Er bod yr Aelod yn sylweddoli mai mater i'w nodi yn unig oedd yr adroddiad a'r penderfyniad gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili, nododd nad oedd ei Grŵp yn fodlon ar y cynigion, yn enwedig y diffyg cyfle i fynychu cyfarfodydd BGC Caerffili a chraffu'r penderfyniad a wnaed, ac felly esboniodd na fyddai ei Grŵp yn cefnogi'r argymhellion ynghylch ffurfio BGC Gwent. Mynegodd Aelod arall bryderon ynghylch ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd a gofynnodd a ellid cynnwys y pethau hyn yn argymhellion yr adroddiad.

Mewn ymateb, pwysleisiwyd i'r Aelodau fod cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili yn agored i'r cyhoedd a bod yr holl bapurau ac agendâu ar wefan BGC Caerffili ac ar gael i'r cyhoedd. Mae ateb cwestiynau gan y cyhoedd yn eitem reolaidd ar yr agenda. Bydd gan BGC newydd Gwent lawer o aelodau o wasanaethau cyhoeddus ac mae Caerffili yn un o bum awdurdod a fydd yn aelod o fwrdd partneriaeth Gwent. Hysbyswyd yr Aelodau fod gwaith ymgysylltu manwl wedi cael ei gynnal a bod pryderon ynghylch trefniadau cyflawni lleol wedi cael eu hystyried a arweiniodd at sefydlu'r rhaglen ymgysylltu drwy gydol yr haf er mwyn canfod sut y gellir parhau i fynd i'r afael â materion lleol fel blaenoriaeth. Hefyd, cyfeiriwyd yr Aelodau at yr adroddiad manwl sy'n cynnal ffocws ar faterion lleol. Cafwyd trafodaeth ynghylch presenoldeb y cyhoedd yng nghyfarfodydd BGC Caerffili, a chadarnhawyd mai'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yw'r cynrychiolwyr ar y BGC a enwebwyd ar gyfer Caerffili. Gellir ceisio cadarnhad gan y Cadeirydd i fynychu cyfarfodydd a chaiff y cyfle i Aelodau etholedig fynychu cyfarfodydd a gofyn cwestiynau i'r BGC ei hysbysebu. Cadarnhawyd hefyd fod y cyfarfodydd wedi bod yn agored i'r cyhoedd ers mis Hydref 2019.

Cafwyd ymholiad ynghylch y rhesymau dros newid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol, ynghyd â'r sail resymegol dros enwebu'r cynrychiolwyr dan sylw o ystyried y diffyg cynrychiolwyr o blith yr Aelodau etholedig, ac awgrymwyd y byddai'n fwy cynhyrchiol cael mwy o gynrychiolwyr ar y BGC. Hysbyswyd yr Aelodau fod adroddiad wedi cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor yn flaenorol ynghylch ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili a oedd yn cynnwys manylion am y cynrychiolwyr dirprwyedig o Gaerffili a byddai'r Cyngor wedi cytuno arno ac, ar ben hynny, byddai'r wybodaeth wedi cael ei chynnwys yn y rhestrau aelodaeth blynyddol a gyflwynir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

O ran yr angen am newid, esboniwyd bod cael llawer o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn golygu bod llawer o bartneriaid, megis yr heddlu a'r gwasanaeth tân, yn gorfod mynychu cyfarfodydd niferus ac felly ceir rhywfaint o ddyblygu ar draws awdurdodau ac nid yw hyn yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Un rheswm dros newid yw eitemau strategol lefel uchel y mae angen ymdrin â nhw ar lefel rhanbarthol (megis newid hinsawdd a cherbydau trydan) ac felly bydd uno yn gwneud gwell defnydd o adnoddau cyfunol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i gymunedau. Pwysleisiwyd na fyddai symud i ôl troed rhanbarthol yn gwanhau'r gofynion lleol na'r buddsoddiad lleol y bydd y Cyngor yn parhau i'w wneud, a gwnaed y pwynt hwn yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Aelodau am ei fod ymhlith y negeseuon allweddol a godwyd gan holl bartneriaid y Cyngor. Esboniwyd mai nod y newid i BGC rhanbarthol yw sicrhau cydbwysedd, gwneud yn siŵr bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol ac effeithlon, gan barhau i ganolbwyntio ar y materion sy'n bwysig ar lefel leol ac yr ymdrinnir â nhw o dan y strwythur llywodraethu priodol.

Eglurwyd hefyd fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu bwrdd statudol ac felly bod y cynigion i symud i BGC rhanbarthol wedi deillio o'r Ddeddf honno. Nodwyd eto y byddwn yn parhau i gydnabod trefniadau cyflawni lleol a chanolbwyntio arnynt ac felly bydd y grwpiau cyflawni sydd o dan y BGC yn parhau i ystyried y materion sydd o'r pwys mwyaf i drigolion, ond bydd BGC Gwent yn creu lefel strategol uwch o ffocws ac yn gweithio mewn ffordd fwy dynamig ac effeithlon gan osgoi dyblygu gwaith a gwneud gwell defnydd o adnoddau. Mewn ymateb i ymholiad pellach, cadarnhawyd hefyd mai Arweinydd a

Phrif Weithredwr pob un o'r pum awdurdod lleol fyddai'r cynrychiolwyr a enwebir i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.

Cafwyd cwestiynau am sefydlu byrddau gwasanaethau rhanbarthol mewn awdurdodau eraill a'u cyfansoddiad a'r arbedion y gellid eu gwneud drwy ddefnyddio dull cydweithredol a lleihau nifer y cynghorau lleol drwy ad-drefnu o bosibl. Esboniwyd mai penderfyniad i bob awdurdod lleol fyddai cymryd rhan mewn byrddau gwasanaethau rhanbarthol. Eglurwyd y gwahaniaethau rhwng trefniadau llywodraethu awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr hefyd a nodwyd mai safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw y bydd y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru yn parhau ond bod gwaith ar bartneriaethau yn faes y mae angen i gynghorau ei ddatblygu. Hysbyswyd yr Aelodau y caiff adroddiad ei gyflwyno gerbron y Cyngor maes o law a fydd yn atgyfnerthu'r fframwaith partneriaeth rhanbarthol ac yn sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu priodol a chadarn mewn perthynas â'i holl gyfrifoldebau yn y maes partneriaeth hwn.

Gofynnodd Aelod a fyddai newid i BGC rhanbarthol yn arwain at arbedion ariannol i'r awdurdodau lleol perthnasol. Esboniwyd nad oes gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyllideb benodol ac felly mae'r holl bartneriaid yn dod â'u cyllidebau presennol o'u sefydliadau eu hunain. Mae pob sefydliad yn canolbwyntio ar feysydd penodol wrth wario ei gyllideb a disgwylir, drwy'r dull cyfunol hwn a lle mae blaenoriaethau cyfunol, y caiff adnoddau eu cyfuno er mwyn sicrhau bod y canlyniadau hynny y gellir eu cyflawni ar y cyd yn cael eu cynyddu i'r eithaf.

Hefyd, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn faes gwaith cydweithredol arall sydd â chyllideb ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â Llywodraeth Cymru ynghylch dyblygu gwaith yn y maes hwn a sut y gall weithio'n fwy effeithlon gyda BGC Gwent. Ar y cyfan, pwysleisiwyd bod datblygu'r BGC rhanbarthol wedi creu sylfaen gadarn ar gyfer gwaith partneriaeth a'i fod yn cynyddu cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid i'r eithaf a chyfleoedd i rannu arferion gorau er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian a chanlyniadau mwy effeithiol i gymunedau. Bydd dysgu gan bartneriaid o bob rhan o'r rhanbarth, a'r ffordd y maent wedi cyflwyno prosiectau, yn darparu canlyniadau gwell. Er enghraifft, gellir rhannu'r gwaith a wnaed yng Nghaerffili ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar ar draws y rhanbarth, a gall pawb gael budd o'r syniadau a rennir ac adnoddau cyfunol. Nododd Aelod mai rhannu syniadau ag amrywiaeth o bartneriaid yw'r ffordd ymlaen.

Ar ôl trafod ac ystyried yr adroddiad, a gan nodi mai mater i'w nodi oedd yr adroddiad ac y câi safbwyntiau'r Aelodau eu rhannu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent,

PENDERFYNWYD y dylid gwneud y canlynol: -

1. Nodi'r adroddiad a nodi'r safbwyntiau ynghylch ei gynnwys a fynegwyd fel rhan o'r trafodaethau â'r Aelodau etholedig.
2. Nodi'r gyfres lawn o argymhellion a geir yn yr adroddiad atodedig:

Argymhelliad 1: Nodi'r cynnig i symud i BGC rhanbarthol fel yr amlinellir yn yr adroddiad a phwysigrwyd cynnal partneriaethau lleol cryf.

Argymhelliad 2: Nodi'r gofyniad i sefydlu Pwyllgor Craffu rhanbarthol a chael manylion pellach yn hyn o beth fel y bo'n briodol.

Argymhelliad 3: Caiff yr asesiad lleol o lesiant, y cytunir arno erbyn 5 Mai 2022, ei ychwanegu at y flaenraglen waith er mwyn ei gymeradwyo.

Argymhelliad 4: Nodi'r newidiadau arfaethedig i'r cylch gorchwyl a gwneud unrhyw newidiadau perthnasol i strwythurau, cylch gorchwyl a chyfansoddiad pwyllgorau.

Argymhelliad 5: Cefnogi'r broses o ddatblygu Grwpiau Cyflawni Lleol a sicrhau y caiff y rhain eu hystyried mewn rhaglenni gwaith Craffu lleol.

Argymhelliad 6: Nodi'r trefniadau i sefydlu Pwyllgor Craffu Rhanbarthol wrth iddynt ddatblygu.

Argymhelliad 7: Parhau i gefnogi'r gwaith o graffu ar y Cynlluniau Llesiant cyfredol tan 2023 drwy drefniadau Craffu partneriaethau lleol presennol.

3. Nodi'r adroddiad atodedig a'r adroddiad cwmpasu a gyflwynwyd ynghyd â barn y Cyngor ar yr argymhellion uchod.

Nodi y gwnaed y penderfyniad i ffurfio BGC Gwent ar y cyd gan bartneriaid sy'n aelodau ar draws y rhanbarth.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.44 p.m.

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 5 Hydref 2021, cawsant eu llofnodi gan y Maer.

---

Y MAER